

Trin pennau tost clwstwr anodd eu rheoli a mathau eraill o geffalgia awtonomig trigeminol drwy ysgogiad dwfn yr ymennydd

*Mae arweiniad
Techlechydd NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio ysgogiad dwfn yr ymennydd yn y GIG i drin pobl â phennau tost clwstwr anodd eu rheoli a mathau eraill o geffalgia awtonomig trigeminol. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau'n cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbytai) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n cynnig gwerth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn am nad oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio ceffalgia awtonomig trigeminol na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y

gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad.
Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 7.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Prin yw'r dystiolaeth ynghylch pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio ac mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn anghyson. Dengys y dystiolaeth ynghylch pa mor ddiogel ydyw fod sgil-effeithiau difrifol ond hysbys. Os yw meddyg am ddefnyddio ysgogiad dwfn yr ymennydd i drin pennau tost clwstwr anodd eu rheoli neu fathau eraill o geffalalgia awtonomig trigeminol, dylai sicrhau ei fod yn cymryd camau ychwanegol i egluro'r ansicrwydd o ran pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio, ynghyd â'r risgiau posibl. Yn benodol, dylid dweud wrth gleifion a'u gofalwyr na fydd y driniaeth yn rheoli symptomau eu pennau tost o bosibl a dylid dweud wrthynt am yr holl risgiau posibl, gan gynnwys y risg fach o farwolaeth. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r claf gytuno (neu beidio â chytuno) i gael y driniaeth. Dylid rhoi'r daflen hon a gwybodaeth ysgrifenedig arall i'r claf fel rhan o'r drafodaeth. Dylid hefyd roi trefniadau arbennig ar waith ar gyfer monitro'r hyn sy'n digwydd i'r claf ar ôl y driniaeth. Dylai cleifion gael eu dewis gan dîm sy'n arbenigo mewn rheoli poen.

Sylwadau eraill gan NICE

Roedd yn anodd i NICE ddehongli'r dystiolaeth, nad oedd rhywfaint ohoni ond yn ymwneud â grŵp penodol o gleifion.

Nododd NICE fod rhai cleifion wedi dweud bod ansawdd eu bywyd wedi gwella ers y driniaeth, hyd yn oed os mai dim ond yn rhannol yr oedd y boen wedi'i lleddfu, a dywedodd rhai cleifion nad oeddent yn teimlo eu bod am gyflawni hunanladdiad mwyach.

*Efallai nad hon yw'r
unig driniaeth bosibl
ar gyfer trin
ceffalgia
awtonomig
trigeminol.
Dylai eich tîm gofal
iechyd siarad â chi
ynghylch
p'un a yw'n addas i
chi a pha
driniaethau eraill
sydd ar gael.*

Ysgogiad dwfn yr ymennydd ar gyfer pennau tost clwstwr anodd eu rheoli a mathau eraill o geffalgia awtonomig trigeminol.

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'ysgogiad dwfn yr ymennydd ar gyfer ceffalgia awtonomig trigeminol anhydrin'.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Math o ben tost yw ceffalgia awtonomig trigeminol (neu TAC) sy'n cynnwys pennau tost clwstwr a mathau eraill o bennau tost difrifol â rhai nodweddion tebyg. Nid yw'r boen yn para'n hir fel arfer ond mae'n ddifrifol, a cheir symptomau eraill fel chwysu, cochi a thrwyn yn rhedeg ar yr un ochr â'r boen. Fel arfer caiff cleifion eu trin â chyffuriau i ddechrau. Weithiau cynhelir llawdriniaeth, ond mae risg o sgil-effeithiau difrifol.

Mae'r driniaeth hon yn cynnwys ysgogi rhannau penodol o'r ymennydd gan ddefnyddio electrodau. Caiff tyllau bach eu drilio i mewn i'r penglog a gosodir electrodau parhaol mewn mannau a ddewiswyd yn ofalus yn ddwfn yn yr ymennydd gyda chymorth cyfrifiadur. Gwneir hyn fel arfer tra bod y claf o dan anesthetig lleol a/neu wedi'i lonyddu. Cynhelir triniaeth brawf i ganfod a oes unrhyw broblemau. Caiff gwifrau o'r electrodau eu gwthio o dan y croen a'u cysylltu â dyfais o'r enw 'generadur curiad' a osodir ar y frest, sy'n rheoli'r ysgogiad trydanol.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os yw eich meddyg wedi cynnig ysgogiad dwfn yr ymennydd i chi ar gyfer pennau tost clwstwr anodd eu rheoli neu fathau eraill o geffalgia awtonomig trigeminol, dylai ddweud wrthyfch fod NICE wedi penderfynu bod y manteision a'r risgiau'n ansicr. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cyflawni'r driniaeth, ond dylai eich meddyg egluro beth mae'r driniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi. Yn benodol, dylid dweud wrthyfch na fydd y driniaeth yn rheoli symptomau eich pen tost o bosibl ac am yr holl risgiau posibl, gan gynnwys y risg fach o farwolaeth. Dim ond ar ôl i'r drafodaeth hon gael ei chynnal y dylid gofyn i chi p'un a ydych am gytuno i gael y driniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y daflen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda'ch meddyg cyn i chi wneud penderfyniad.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis
cael y driniaeth
hon, cael triniaeth
wahanol, neu
beidio â chael
triniaeth
o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar bum astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Canfu astudiaeth o 12 o gleifion nad oedd unrhyw wahaniaeth o ran amllder yr achosion o ben tost, pa mor wael oedd y boen na boddhad cleifion yn ystod cyfnodau o driniaeth ysgogiad dwfn yr ymennydd o gymharu â chyfnodau o driniaeth gyda'r ysgogydd wedi'i ddiffodd. Fodd bynnag, yn ystod cyfnod o 10 mis o driniaeth ysgogiad dwfn yr ymennydd, nodwyd 48% yn llai o achosion o ben tost bob wythnos ar gyfartaledd (o 14 i 8 yr wythnos), a llai o bryder ac iselder (mesurwyd gan ddefnyddio holiadur)

Yn ystod astudiaeth o 20 o gleifion, dywedodd 16 o gleifion a gafodd driniaeth am ben tost clwstwr cronig fod eu poen wedi'i lleddfu. Ar gyfartaledd, cafwyd ymateb i'r driniaeth ar ôl 42 o ddiwrnodau ac ni chafwyd unrhyw boen ar 71% o ddiwrnodau. Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE hefyd i gynghorwyr arbenigol am eu barn. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod y ffactorau llwyddiant yn cynnwys gwelliant yn niferoedd, difrifoldeb a hyd achosion o ben tost, ac mewn ansawdd bywyd.

Risgiau a phroblemau posibl

Mewn astudiaeth o chwe chlaf â phen tost clwstwr cronig, bu farw un claf dridiau ar ôl y driniaeth oherwydd gwaedu yn yr ymennydd a ddatblygodd ychydig oriau ar ôl y driniaeth.

Mewn astudiaeth o 12 o gleifion, cafodd un claf haint yn union o dan y croen dair wythnos ar ôl y llawdriniaeth, ac mewn astudiaeth o 21 o gleifion, cafodd un claf haint yn ddwfn o dan y croen. Cafodd y ddau glaf driniaeth gwrthfotig a thynnwyd y system ysgogiad dwfn yr ymennydd.

Yn yr astudiaeth o 12 o gleifion, collodd un claf ymwybyddiaeth dros dro ac aeth yn wan ar un ochr yn fuan ar ôl y driniaeth brawf, yna llewygodd oherwydd pwysedd gwaed isel wrth basio dŵr.

Gwelwyd achosion o olwg ddwbl a phendro ym mhob claf pan ddefnyddiwyd lefelau uchel o ysgogi trydanol yn yr astudiaeth o chwe chlaf. Roedd cyfradd anadlu a chyfradd curiad y galon un claf yn uwch ond gwnaethant ostwng ar ôl tynnu'r electrod.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod problemau posibl yn cynnwys strôc, ffitiau a'r gwifrau'n symud.

Rhagor o wybodaeth am geffalalgia awtonomig trigeminol.

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi. I gael manylion am holl ganllawiau NICE ar bennau tost, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud ag 'Ysgogiad dwfn yr ymennydd ar gyfer ceffalgia awtonomig trigeminol'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/guidance/HTG252

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8364-3

N2532 1P March 11

© National Institute for Health and Clinical Excellence. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes.

No reproduction by or for commercial organisations, or

for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.